



Diwrnod y Lluoedd Arfog 30 Mehefin 2018

Newyddlen Rhifyn 2 - Ionawr 2018

Gair gan y Cynol Lance Patterson

Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog 2018 yn argoeli i fod yn achlysur pwysig a rhagorol, nid yn unig i Llandudno, ond i Gymru gyfan a gweddill y DU. Mae'n anrhydedd mawr i ni gefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddod â Diwrnod cenedlaethol Lluoedd Arfog y DU i Gymru. Mae gan Gymru hanes milwrol balch a thraddodiadau milwrol cryf, ac efallai mai oherwydd hyn rydym yn arloesol, ac mae diwrnod Lluoedd Arfog y DU hwn yn argoeli i gynnwys rhai nodweddion unigryw.

Mae Llandudno ei hun wedi bod yn dref gyda chysylltiadau milwrol dwfn, yn cynnwys gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, gan ddarparu byddinoedd ar gyfer y 38^{ain} a'r 53^{ydd} Adran Gymreig ar Ffrynt y Gorllewin yn Gallipoli a'r Dwyrain Canol. Roedd y dref yn gartref i'r 69^{ain} Catrawd o'r Fagnelaeth Frenhinol (Iwmyn Caernarfon a Dinbych), a frwydrodd gyda'r Fyddin Ymgyrchol Brydeinig ym 1940 cyn cael ei hanfon i Ogledd Affrica ym 1942.

Mae trefniant ac unedau Cymreig yn parhau i gyfrannu llawer o heddwch a diogelwch. Er bod ymgyrchoedd brwydro wedi darford yn Irac ac Affganistan, nid yw hynny'n golygu bod ein cefnogaeth i'r gwledydd hynny wedi dod i ben. Mae fy mrigâd fy hun, 160^{ain} Brigâd Milwyr Traed a Phencadlys Cymru, yn Aberhonddu, yn enghraifft dda o dempo ymgyrchoedd cyfredol. Ym mis Awst eleni, fe wnaethom ddarfod cyfnod o 2 flynedd a hanner o ymrwymiad parhaus i ymgyrchoedd. Dyma'r mis y dychwelodd Bataliwn 1^{af} y Gwyddelod Brenhinol o ymrwymiad wyth mis i Kabul, ac ym mis Ionawr, dychwelydd Bataliwn 1^{af} y Reiffwyr o ymrwymiad 18 mis i Irac, lle'r oeddent yn hyfforddi byddinoedd Iracaidd a

Chwrdaidd ar gyfer yr ymosodiad llwyddiannus yn y pen draw, yn erbyn cadarnle Daesh ym Mosul. Cyn hynny, roedd gennym yr 2^{ail} Fataliwn o'r Gwyddelod Brenhinol wedi'u hymrwymo i gefnogi hyfforddiant i luoedd arfog Wcráin. Ar hyn o bryd, mae Bataliwn 1^{af} Uned Frwydro'r Cymry Brenhinol yn Estonia yn atgyfnerthu ystlys ddwyreiniol NATO, tra bod Bataliwn 1^{af} y Gwarchodlu Cymreig, a'r 1^{af} o Warchodlu Dragwniaid y Frenhines, y Marchfilwyr Cymreig, yn barod i weithredu ar fyr rybudd. At hynny, gellir ychwanegu ein cyfrifoldeb i ddatblygu ein cysylltiadau Byddin-i-Fyddin gydag 16 gwlad ar draws Dwyrain Ewrop, y Balcanau, y Cawcasws a Chanol Asia, yn ogystal â chefnogi'r Sylfaen Gadarn a gwytnwch y DU, sy'n cefnogi heddluoedd ar gyfer digwyddiadau mawr, fel Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA yng Nghaerdydd ym Mehefin y llynedd, neu ymateb i drychinebau naturiol neu i ymosodiadau terfysgol, yna cewch ddarlun o fywydau ein milwyr heddiw.



I ddarparu'r cyfraniad hwn at Amddiffyn y DU, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth ein teuluoedd ein hunain a'n cymunedau, awdurdodau lleol a'r sefydliadau trydydd sector a sector preifat niferus ar draws y DU. Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog felly'n bwysig iawn i'n milwyr. Rydym yn falch o gael ein cydnabod gan gyhoedd y DU, ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd gennym yn fawr. Nid yw'r cwlwm hwnnw'n fwy amlwg nag yn ystod dathliadau Diwrnod y Lluoedd Arfog, ac rydym yn edrych ymlaen at 30 Mehefin, pan fydd y dref hanesyddol hon yn cynnal y digwyddiad arbennig hwn.

Cynol Lance Patterson
Arweinydd Tri Gwasanaeth



Yn galw ar bob cyn-filwr!

Hoffech chi gymryd rhan yn yr orymdaith seremonïol?

Mae hwn yn ddiwrnod arbennig i lawer ac rydym yn chwilio am gyn-filwyr o bob rhan o'r wlad ac o'r Tri Gwasanaeth i ymuno â'r orymdaith. Os hoffech chi gymryd rhan, byddem wrth ein bodd clywed oddi wrthyich. Rydym yn disgwyl y bydd llawer o alw, felly anfonwch eich ffurflenni cofrestru atom erbyn dim hwyrach na **28 Chwefror**.

Bydd yr orymdaith seremonïol yn digwydd tua hanner dydd ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, dydd Sadwrn 30 Mehefin. Cofrestrwch rwan: www.conwy.gov.uk/gorymdaithdlla

Mae rhywbeth i bawb yn Sir Conwy!

Pa un a ydych yn chwilio am dref glan y môr hynod i dreulio ychydig o amser ynddi; eisiau profi her yr awyr agored neu weld adfeilion hanesyddol rhyfeddol, mae rhywbeth at ddant pawb yn Sir Conwy.

Peidiwch ag oedi - Archebwch eich llety ar unwaith! Os ydych am gymryd mantais o'r digwyddiad hwn a threulio wythnos neu benwythnos yma, rydym yn cyngori eich bod yn archebu eich lle yn fuan. Am ragor o wybodaeth ar dwristiaeth yng Nghonwy, ewch i: <http://cy.visitllandudno.org.uk/> neu ffoniwch y Ganolfan Groeso i archebu ar **01492 577577**.



Arddangoswyr a Stodinwyr

Ydych chi'n elusen genedlaethol neu'n sefydliad ac arnoch chi eisiau mynychu'r digwyddiad mawr?

Eleni, rydym yn bwriadu sefydlu Pentref 'Y Lluoedd Arfog a Lles' a dros y misoedd nesaf byddwn yn cymryd archebion gan arddangoswyr sy'n berthnasol i'r digwyddiad.

Yn gyntaf, mynegwch eich diddordeb drwy e-bostio eich manylion cyswllt a gwybodaeth am yr hyn y gallwch chi ei gyfrannu at y digwyddiad at marchnata@conwy.gov.uk

Rydym angen help ychwanegol ...

Mae trefnwyr Diwrnod y Lluoedd Arfog 2018 yn chwilio am noddwyr i'w helpu i gynnal y digwyddiad ac i ddiolch i'r milwyr a'r cyn-filwyr. Allwch chi ein helpu ni i ddarparu offer hollbwysig ar gyfer y gwaith adeiladu neu ginio pecyn ar gyfer y cyn-filwyr? Mae gennym ni restr hir, felly os hoffech weld sut y gallai eich busnes chi helpu, cysylltwch â ni!

I drafod cyfleoedd posibl, cysylltwch ag marchnata@conwy.gov.uk

Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog eich angen chi!

Ydych chi eisiau helpu? Er mwyn cynnal digwyddiad o'r maint hwn yn llwyddiannus mae angen cannoedd a channoedd o unigolion i gynorthwyo, rydym felly'n chwilio am wirfoddolwyr brwdfrydig i weithio fel stiwardiaid a marsialiaid. Er y gall y gwaith fod yn flinedig ar adegau (blinedig iawn i'ch traed yn arbennig!), mae mwyafrif y gwirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â'n rhaglen ddigwyddiadau yn dweud bod y gwaith yn ddiddorol iawn ac yn rhoi boddhad iddynt.

Os hoffech chi gymryd rhan a helpu gyda'r digwyddiad hwn, anfonwch neges i digwyddiadau@conwy.gov.uk i dderbyn ffurflen gofrestru.